

## Adroddiad Ôl-Ymgynghori

### **Sanquhar Street – Gwaredu mesurau culhau rhoi blaenoriaeth**

#### **Rhif Project: CO19048**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 2 Awst 2019 a 23 Awst 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r oddeutu 40 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 3 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 3 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 1 yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig
- 2 wedi cyflwyno sylwadau ond heb ddweud a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig

Crynoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

#### Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn gwaredu'r mesurau culhau sy'n rhoi blaenoriaeth ar Sanquhar Street gan roi croesfan sebra ddirchafedig ymwithiol. Bydd hyn yn helpu i leihau cyflymderau cerbydau ar hyd y llwybr hwn a fydd yn gwella diogelwch ar y ffordd cyffredinol yn yr ardal ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

#### **Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

Mater - "Trwy waredu'r mesurau culhau sy'n rhoi blaenoriaeth, fy mhryder i yw y byddwch yn gwaredu'r unig fesur ar hyd y stryd sy'n arafu cerbydau, nid yw'r twmpathau cyflymder yn arafu cyfran uchel o gerbydau megis faniau/SUVs. Rwy'n teimlo, o ganlyniad i natur syth y stryd, y bydd gan geir olwg clir o bellter sylweddol a yw cerddwr am groesi, ac os nad oes fydd dim angen iddyn nhw arafu, gan o bosibl gynyddu cyflymderau traffig ar y stryd. Ar hyn o bryd, mae angen arafu cerbydau 24/7, mae'r cynllun arfaethedig yn creu angen i arafu dim ond pan fo rhywun yn croesi. Rwy'n teimlo mai'r ffordd orau o leihau cyflymder ar y stryd yn y dyfodol fyddai ymgorffori mwy o rwystrau ymwithiol a mesurau culhau'r ffordd gyda'r posibilrwydd am blannu, yn debyg i Grangetown Werddach.

*Ar hyn o bryd mae cerbydau ar Sanquhar Street dim ond yn gorfod arafu neu stopio pan fo cerbydau sy'n teithio i'r cyfeiriad arall yn dod i'w cwrdd wrth y mesurau culhau sy'n rhoi blaenoriaeth. Felly, pan fo cerbydau yn teithio trwy'r mesurau culhau hyn os nad oes cerbydau yn teithio i'r cyfeiriad arall, gall cerbydau barhau ar hyd y llwybr hwn heb arafu. Drwy gyflwyno'r groesfan sebra ddirchafedig yn y lleoliad hwn bydd yn sicrhau bod cerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad yn gorfod arafu p'un a oes cerbydau yn teithio i'r cyfeiriad arall neu beidio.*


*Cynigir i wneud ochr ogleddol y droedffordd yn y lleoliad hwn yn rhwystr ymwithiol, bydd hyn yn alinio cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fel na fyddant yn agos at ymyl y cwrbyn a bydd hynny'n gwella gwelededd cerbydau sy'n gadael y strydoedd ochr o'r cerbydau hyn. Bydd hyn hefyd yn lleihau lled y briffordd y mae'n rhaid i gerddwyr ei chroesi yma, sy'n gwella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi wrth y lleoliad hwn.*

**Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori na ddywedodd a ydynt o blaid y cynnig neu'n ei wrthwynebu:**

“Fy mhryder yw a oes cynlluniau i oleuadau oren sy'n fflachio wrth y groesfan sebra arfaethedig? Byddai unrhyw oleuadau sy'n fflachio yn debygol o gael effaith negyddol ar ein cwsg”

*Gan fod y goleuadau croesi arfaethedig yn agos at eiddo preswyl, caiff gorchuddion eu cyflwyno ar gyfer y goleuadau croesi arfaethedig. Bydd y rhain yn mynd o gwmpas y goleuadau croesi a chyfyngu ar olau'n disgleirio i eiddo cyfagos, nid ydynt yn cyfyngu ar welededd o'r goleuadau i yrwyr sy'n gyrru tuag at y lleoliad croesi.*

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnis rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.

